**Polisi a datganiad ar y defnydd o logo Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gan leoliadau gofal iechyd annibynnol/practisau deintyddol preifat**

---

Mae'r polisi yn amlinellu'r weithdrefn a'r telerau a'r amodau ar gyfer y defnydd o logo AGIC gan leoliadau gofal iechyd annibynnol/practisau deintyddol preifat.

**Noder:** Mae lleoliadau gofal iechyd annibynnol wedi'u cofrestru ag AGIC o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac yn cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Mae practisau deintyddol preifat wedi'u cofrestru ag AGIC o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 hefyd.

## 1. Y weithdrefn

1.1 Mae'n rhaid i unrhyw leoliad/practis cofrestredig sydd am ddefnyddio logo AGIC ar eu dogfennaeth, cyhoeddiadau neu arwyddion, gysylltu â Gwasanaethau Corfforaethol AGIC i wneud cais. Ni chaniateir i unrhyw leoliad/practis nad ydynt wedi'u cofrestru ag AGIC ddefnyddio logo AGIC.

1.2 Manylion cyswllt y Gwasanaethau Corfforaethol:
**HIW@gov.wales** neu 0300 062 8163

1.3 Mae'n rhaid llofnodi a dychwelyd y polisi a'r datganiad hwn i'r Gwasanaethau Corfforaethol cyn y caiff logo AGIC ei ryddhau i'w ddefnyddio.

1.4 Ar ôl derbyn y polisi wedi'i lofnodi a'r datganiad wedi'i gwblhau yn gywir, byddwn yn ychwanegu eich manylion (y lleoliad/practis cofrestredig) at restr ganolog. Bydd yr adran gyfathrebu yn rhyddhau logo AGIC i'w ddefnyddio o dan y telerau ac amodau dilynol.

## 2. Telerau ac amodau

2.1 Dim ond ar gopïau electronig neu gopïau caled o ddogfennaeth neu gyhoeddiadau y dylid defnyddio logo AGIC, gan gynnwys y canlynol: papur â phennawd, cardiau busnes, deunydd ysgrifennu, gwefan, hysbysebion neu arwyddion. Hefyd, mae'n rhaid i hysbysebion gydymffurfio â safonau gofynnol cenedlaethol Cymru.

2.2 Mae'n rhaid i AGIC gytuno ar unrhyw ddefnydd arfaethedig o logo AGIC ar ddogfennaeth/cyhoeddiadau cyn i'r logo gael ei ddefnyddio a'i argraffu. Ni ddylid golygu na newid y logo mewn unrhyw ffordd.

2.3 Ni ddylid gosod logo AGIC ar unrhyw gyfarpar na chynhyrchion.

2.4 Nid yw'r defnydd o logo AGIC yn gymeradwyaeth nac yn argymhelliad o unrhyw wasanaeth na chynnyrch. Ni chaniateir unrhyw awgrym ein bod yn cymeradwyo neu'n argymell unrhyw ddarparwr. Mae cofrestru ag AGIC yn dynodi bod y darparwr yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol cenedlaethol a'r rheoliadau ar gyfer gofal iechyd annibynnol a phractisau deintyddol preifat, o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

2.5 Gall cydymffurfiaeth â'r telerau a'r amodau hyn ar gyfer defnyddio logo AGIC gael ei monitro pan fyddwn yn arolygu eich gwasanaeth.

2.6 Mae AGIC yn cofrestru darparwyr gofal iechyd a phractisau deintyddol preifat fel sefydliadau a chyfleusterau unigol – nid ar lefel gorfforaethol. Felly, mae'n rhaid i bob sefydliad cofrestredig gwblhau'r datganiad isod. Ni ellir cyflwyno datganiad corfforaethol ar ran mwy nag un sefydliad.

2.7 Os nad ydych yn dilyn polisi a chanllawiau AGIC, rydym yn cadw'r hawl i ddirymu'r caniatâd i ddefnyddio logo AGIC.

**Datganiad**

Fel y rheolwr(rheolwyr)/person(au) cofrestredig (gall hyn gynnwys unigolyn cyfrifol sefydliad hefyd), rwy'n cytuno â'r telerau a'r amodau uchod o ran defnyddio logo AGIC ar unrhyw ddogfennaeth neu gyhoeddiad a luniwyd gan, neu mewn cysylltiad â'm sefydliad/practis cofrestredig.

Enw: ______________________________________________

Llofnodwyd: ______________________________________________

Rôl/teitl:______________________________________________

Enw'r sefydliad/practis cofrestredig:

______________________________________________

Dyddiad cofrestru: ______________________________________________

Ble/sut y byddwch yn defnyddio logo Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru:

______________________________________________

______________________________________________

Cyfeiriad post: ______________________________________________

Cyfeiriad e-bost: ______________________________________________

Ffôn: ______________________________________________

**Anfonwch i'r Gwasanaethau Corfforaethol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Parc Busnes Rhydycar, Merthyr Tudful, CF48 1UZ / hiw@gov.wales**